

# Rhywedd

## Cefndir

Mae'n bwysig peidio â gosod pob merch neu bob dyn yn yr un categori.

Cofiwch mai ystyr rhywedd yw dynion a merched.

Mae gwahaniaethau mawr rhwng dynion a merched o wahanol ddsbarthiadau cymdeithasol ac o wahanol gefndiroedd ethnig.

Mae Annandale (2006) yn dadlau hyd yn ddiweddar fod anghydraddoldebau rhywedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar ferched ond bod hyn bellach yn newid. Mae'n dadlau bellach bod mwy o waith ymchwil ar iechyd dynion a bod angen dull gweithredu sy'n cynnwys y ddau ryw mewn perthynas ag iechyd merched a dynion.

Gellir egluro anghydraddoldebau rhywedd ym maes iechyd gan ddefnyddio un neu fwy o'r canlynol. Defnyddir un neu fwy gan fod achosion o orgyffwrdd rhwng rhai ohonynt weithiau.

- Arteffact
- Biolegol
- Diwylliannol neu faterol

### Tasg 1: Anghydraddoldebau rhywedd mewn perthynas â morbidrwydd

Dyma fydd dechrau'r gwaith adolygu ar gyfer anghydraddoldebau rhywedd mewn perthynas â morbidrwydd.

1. Cwblhewch y tabl isod.

Cymdeithasegwyr defnyddiol mewn perthynas â rhywedd

Cymdeithasegydd	Persbectif	Crynodeb byr	Gwerthusiad
Doyal	Ffeminist Marcsaidd		
Doyal a Pennell	Ffeministiaid Marcsaidd		
Graham (1984)	Ffeminist Marcsaidd		
Oakley			
Roberts			
Abbot a Wallace			

Cymdeithasegydd	Persbectif	Crynodeb byr	Gwerthusiad
Bowler (1993)			
Popay a Bartley (1989)			
Annandale (2008)		Cwestiynau o ran p'un a yw'r newidiadau i fywydau merched cyn y 30 mlynedd diwethaf o ran addysg a chyflogaeth wedi arwain at fwy o bwysau ac felly risgiau cysylltiedig i iechyd.	
Lyng		Mae dynion ifanc yn fentrus ac felly'n fwy tueddol o gael damweiniau na merched ifanc.	Mae Dolan (2011) yn dadlau nad yw pob dyn ifanc yn barod i fentro.
Katz			
O'Brien (2005)		Gall gwrywododau traddodiadol atal dynion rhag cael gafael ar help meddygol.	
Stanistreet et al (2005)		Mae patriarchaeth hefyd yn achosi problemau i ddynion ac i ferched mewn perthynas â gofal iechyd.	
Annandale, E a Riska, E (2009)		Dadlau o blaid dull gweithredu newydd sy'n cynnwys y ddau ryw mewn perthynas ag iechyd dynion a merched.	

Cymdeithasegydd		Crynodeb byr	Gwerthusiad
Taylor, S a Field, D		Mae'r defnydd o alcohol a chyffuriau gan ddynion ifanc yn un o'r ffactorau cyffredin sy'n arwain at hunanladdiad.	Cynnydd yn yr awydd i fod yn 'un o'r bois' ('laddism' yn Saesneg), er nad yw'r gyfradd marwolaethau drwy hunanladdiad mor uchel.  Annandale, E (2008)

### Tasg 2: Meithrin sgiliau gwerthuso

Darllenwch yr ateb canlynol gan fyfyrwr a thrafodwch mewn grwpiau bach beth fyddai'n ei wella o radd C/D i radd A/B.

#### AWGRYM

Wrth i chi ei ddarllen:

1. Tanlinellwch unrhyw eiriau neu ymadroddion gwerthusol.
2. Cadarnhewch gywirdeb y cymdeithasegwyr a ddyfynnwyd gan yr ymgeisydd, gan gynnwys sut mae'r ymgeisydd wedi sillafu eu henw.
3. Edrychwch am y cyffredinoliadau eang a wnaed gan yr ymgeisydd ac ystyriwch pa dystiolaeth sydd ei hangen i ategu'r honiadau/haeriadau. A yw'r holl gyffredinoliadau yn gywir hyd yn oed?
4. A yw'n ddigon manwl ar gyfer traethawd estynedig?

Gwerthuswch yr anghydraddoldebau rhywedd sy'n gysylltiedig â morbidrwydd a marwolaeth

[40]

Dros y blynyddoedd, mae ymchwil gan SYG wedi dangos bod gan ferched ddisgwyliad oes hirach na dynion. Yr esgus cyffredin a wneir gan bobl yw bod gan ferched ffordd o fyw fwy iachus ond mae llawer mwy o ffactorau perthnasol na hynny.

Dangosodd ystadegau SYG (2014) gyfradd marwolaethau lawer uwch ymhlith dynion o drawiadau ar y galon na merched. Caiff hyn ei achosi gan y llafur ailadroddus, diflas y gorfodir nifer sylweddol o ddynion o'r dosbarth gweithiol ei wneud. Dadleuwyd hyn gan Freund et al a oedd hefyd o'r farn bod natur ailadroddus a diflastod cyffredinol swyddi yn rhoi straen arnynt gan achosi iddynt heneiddio'n llawer cynt na merched.

Fodd bynnag, nododd Scambler et al (1981) nad oedd gan ferched unrhyw ddiddordeb cyffredinol mewn mynd at y meddyg. Yn ei hastudiaeth, canfu mai dim ond 1 allan o 11 o ferched a aeth i weld ei meddyg yn

# Rhywedd

gyntaf. Byddai'r rhan fwyaf o ferched naill ai'n siarad â'u gwŷr, ffrindiau benywaidd, mamau neu berthnasau eraill am eu problemau iechyd er mwyn darganfod p'un a yw eu 'cyflwr' yn ddigon difrifol i fynd at feddyg.

Ystyrir bod yr ystadegau hyn yn waeth byth ymhlith dynion gyda dynion yn aml yn osgoi mynd at feddyg pan oedd angen gwneud hynny.

Dangosodd SYG (2013) fod 56% o ddynion yn mynd at feddyg lai nag unwaith bob pum mlynedd. Mae dynion yn aml o'r farn bod mynd at feddyg yn lleihau eu gwrywdod gan fod salwch yn aml yn gysylltiedig â gwendid.

Dadleuodd Wilkz (1980) sy'n ffeminist y disgwylir i ferched ofalu am eu cyrff yn llawer gwell na dynion gan fod yn rhaid iddynt ofalu am blant a hefyd yn ystod beichiogrwydd, ac felly ei bod yn ofynnol iddynt sicrhau ffordd o fyw iach er mwyn eu plant tra bod y dynion yn gweithio.

Canfu Dixon (1998) wahaniaethau mawr rhwng y rhywiau o ran cyflogaeth yn y system iechyd. Roedd dynion yn ymgymryd â swyddi fel meddygon a meddygon teulu gan fwyaf, ond ymddengys mai ym maes nyrsio a bydwreigiaeth roedd yr unig gyfleoedd swydd i ferched. Roedd y swyddi hyn yn cael eu cyflawni'n bennaf gan ferched o dan reolaeth dynion.

## Tasg 3: Cymhwyso'r sgiliau

Nawr rhowch gynnig ar ei hailysgrifennu. Cyn i chi wneud hynny, ailedrychwch ar yr adran ar ysgrifennu traethodau estynedig ar ddiwedd uned pedwar.

Mae'n bosibl y byddwch am ystyried strwythuro eich traethawd yn seiliedig ar yr esboniadau canlynol:

- Arteffact,
- Biolegol,
- Diwylliannol a materol.

Yn ogystal, yn y paragraff olaf ond un, mae'n bosibl y byddwch am gyfeirio at waith Annandale (2009) ar groesdoriadedd.